


<b>COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH</b>		<b>Canllaw</b>	<b>G003</b>
 <b>PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY</b>	<b>Canllaw ar Brofi Offer Trydanol Cludadwy</b>	<b>Rhifyn</b>	<b>1</b>
		<b>Dyddiad</b>	<b>Mai 2017</b>
		<b>Tudalen</b>	<b>1 o 3</b>

### Cyflwyniad

Mae'r canllaw canlynol yn darparu cyngor a chymorth ychwanegol i staff i ddehongli Polisi Profi Offer Trydanol Cludadwy (PAT) Prifysgol Aberystwyth. Ni ddylid ystyried y ddogfen hon ar ei phen ei hun, a dylid ei hystyried ar y cyd â'r ddogfen Polisi.

### Ystyriaethau Allweddol

Yn gyffredinol, ystyrir bod Offer Trydanol Cludadwy yn unrhyw offer symudadwy sydd â phlwg e.e. tegell, til, cyfrifiadur, golchwr pwysedd uchel ac ati.

Yr ystyriaethau allweddol ar gyfer pob offer trydanol yw:

- Rhaid sicrhau bod offer yn cael ei gadw mewn cyflwr da gan staff cymwys;
- Dylid cynnal archwiliadau gweledol yn rheolaidd – dyma'r ffordd orau o ddod o hyd i namau;
- Dylid cynnal profion PAT ffurfiol – bydd pa mor aml yn dibynnu ar nifer o ffactorau e.e. oedran yr offer, pa mor aml mae'n cael ei ddefnyddio, math o offer;
- Mae'n bwysig cadw cofnodion, a/neu farcio offer i ddangos ei fod wedi cael ei brofi.

### Cyfrifoldebau

Mae pob Cyfadran neu Adran Gwasanaeth Proffesiynol yn gyfrifol am brofi eu hoffer trydanol cludadwy eu hunain. Yn unol ag arferion gorau, dylid profi offer trydanol cludadwy yn flynyddol.

Gellir trefnu Profion Offer Trydanol Cludadwy mewn un o ddwy ffordd:


1. Gall y Cyfadran neu'r Adran Gwasanaeth Proffesiynol drefnu bod contractwr allanol cymwys yn cynnal profion PAT ar eu hoffer trydanol;
2. Gall y Cyfadran neu'r Adran Gwasanaeth Proffesiynol drefnu hyfforddiant i sicrhau bod aelod o staff cymwys yn cynnal profion PAT ar eu holl eitemau trydanol.

Pan fydd Cyfadranau neu'r Adranau Gwasanaeth Proffesiynol yn cynnal eu profion PAT eu hunain, mae profwr Offer Trydanol Cludadwy, ynghyd â DVD hyfforddi rhyngweithiol, ar gael i'w benthyg oddi wrth y Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Dylai staff gysylltu â'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ar [hasstaff@aber.ac.uk](mailto:hasstaff@aber.ac.uk) neu ar estyniad 2073 i wneud trefniadau i fenthyg yr offer.

### Gwiriadau Defnyddwyr

Dylid cyflawni'r rhain cyn defnyddio unrhyw offer trydanol, tra bo'r offer wedi ei ddatgysylltu. Dylid ystyried y pethau canlynol:

- difrod i'r wifren yn cynnwys rhaflo, toriadau neu grafiadau drwg, e.e. o orchuddion blychau llawr;
- difrod i'r plwg, e.e. i'r gorchudd neu biniau wedi plygu;
- tâp wedi ei roi ar y gwifrau i'w dal gyda'i gilydd;
- gwifrau lliw yn weladwy ble mae'r wifren yn uno â'r plwg (nid yw'r wifren yn cael ei ddal yn ei le ble mae'n mynd i mewn i'r plwg);
- difrod i orchudd allanol yr offer ei hun, yn cynnwys rhannau neu sgriwiau rhydd;
- arwyddion o orboethi, megis olion llosg neu staeniau ar y plwg, y wifren neu ddarn o offer;

<b>COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH</b>		<b>Canllaw</b>	<b>G003</b>
 <b>PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY</b>	<b>Canllaw ar Brofi Offer Trydanol Cludadwy</b>	<b>Rhifyn</b>	<b>1</b>
		<b>Dyddiad</b>	<b>Mai 2017</b>
		<b>Tudalen</b>	<b>2 o 3</b>

- offer sydd wedi ei ddefnyddio neu ei storio mewn amodau anaddas, megis amgylcheddau gwlyb neu lychlyd, neu lle mae'n bosibl arllwys dŵr; a
- ceblau wedi eu dal o dan ddodrefn neu flychau llawr.

Mae'n bwysig dal ati i gyflawni gwiriadau defnyddwyr ar offer trydanol sydd wedi ei brofi. Mae hyn oherwydd mai dim ond rhoi syniad o ddiogelwch offer ar adeg y prawf fydd profion PAT, ac nid ydynt yn golygu y bydd yr eitemau yn ddiogel am gyfnod pellach o amser.

### Archwiliadau Gweledol

I gyflawni archwiliad gweledol, bydd angen i staff wybod am beth i chwilio a rhaid iddynt hefyd fod â digon o wybodaeth i osgoi perygl i'w hunain ac eraill. Bydd angen hyfforddiant i sicrhau bod gan staff ryw faint o wybodaeth drydanol sylfaenol i gyflawni archwiliadau gweledol yn gymwys.

Yn rhan o'r archwiliad gweledol, dylid ystyried:


- a yw'r offer trydanol yn cael ei ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr;
- a yw'r offer yn addas ar gyfer y gwaith;
- a gafwyd unrhyw newid mewn amgylchiadau; ac
- a yw'r defnyddiwr wedi rhoi gwybod am unrhyw broblemau.

### Ystyriaethau ychwanegol i sicrhau bod offer trydanol yn ddiogel

- Anogwch eich cyd-weithwyr i edrych ar gebl cyflenwad yr offer trydanol cyn ei ddefnyddio (gwiriad defnyddiwr).
- Anogwch eich cyd-weithwyr i edrych ar offer trydanol cyn ei ddefnyddio (gwiriad defnyddiwr).
- Sicrhewch fod unrhyw offer cludadwy yn cael ei archwilio'n weladwy ar adegau penodol. Gallai hyn fod rhwng chwe mis a phedair blynedd, yn dibynnu ar y math o offer.
- Trefnwch bod offer heb ynysiad dwbl yn cael prawf PAT (yn cynnwys gwifrau) o leiaf bob blwyddyn, yn dibynnu ar y math o offer.
- Sicrhewch bod offer sydd wedi'i ddifrodi neu sy'n ddiffygiol yn cael ei gydnabod, ei dynnu o ddefnydd yn ddi-oed a naill ai:
  - yn cael ei drwsio gan rywun cymwys (h.y. gyda'r hyfforddiant, y sgiliau a'r wybodaeth briodol i atal anaf iddynt eu hunain neu eraill); neu
  - yn cael ei waredu i atal defnydd pellach o'r offer - ymgynghorwch â'ch awdurdod lleol ynglŷn â threfniadau i gael gwared ar offer trydanol.
- Adolygwch y system gynnal a chadw i benderfynu a fyddai'n bosibl lleihau neu gynyddu'r cyfnodau rhwng archwilio a/neu brofi'r offer. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gadw cofnodion o'r holl archwiliadau a phrofion, gan labelu'r offer â chanlyniad a dyddiad y prawf, ond nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i wneud y naill na'r llall o'r pethau hyn.

### Cwestiynau a Holir yn Aml a Gwybodaeth Bellach

Mae Cwestiynau a Holir yn Aml yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n ymwneud â phrofi offer cludadwy ar gael ar: <http://www.hse.gov.uk/electricity/faq-portable-appliance-testing.htm>.

<b>COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH</b>		<b>Canllaw</b>	<b>G003</b>
 <b>PRIFYSGOL</b> <b>ABERYSTWYTH</b> <b>UNIVERSITY</b>	<b>Canllaw ar Brofi Offer</b> <b>Trydanol Cludadwy</b>	<b>Rhifyn</b>	<b>1</b>
		<b>Dyddiad</b>	<b>Mai</b> <b>2017</b>
		<b>Tudalen</b>	<b>3 o 3</b>

Mae dogfen yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, *Maintaining portable electric equipment in low-risk environments* document, ar gael ar: <http://www.hse.gov.uk/pubns/indg236.pdf>.

Am ragor o wybodaeth yn ymwneud ag offer trydanol, yn cynnwys cyfrifiannell gorlwytho socedi, gweler: <https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/electricity/>.